**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 14-02(p5)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Iau 17eg Hydref 2002** |
| **Amser:** | **9:00 tan 12:30** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgor 1, Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd** |
| **Teitl :** | **Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru:Ymgynghoriad ar adroddiad ynni adnewyddadwy** |

**Pwrpas y Papur**

1. Adrodd ar ymatebion i'r ymgynghoriad ar adroddiad Ynni Adnewyddadwy

**Cefndir**

2. Mae'r papur sydd ynghlwm, a baratowyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad ar ein hadroddiad ynni adnewyddadwy. Mae'r ymatebion unigol, sydd wedi bod ar gael yn fewnol i Aelodau am beth amser, wedi'i cyhoeddi ar y Rhyngrwyd hefyd erbyn hyn.

**Targed ar gyfer Ynni Adnewyddadwy**

3. Yn y drafodaeth ddiwethaf gan y EDC ar y rhan hon o'r Adolygiad buom yn sôn am osod targed ar gyfer ynni adnewyddadwy. Trafodwyd hyn gan y Grwp Cyfeirio ar 24 Medi.

4. Yr argraff gyffredinol o'r ymateb i'r ymgynghoriad yw, nad yw cwestiwn o darged yn fater allweddol i nifer fawr o bobl. Ychydig iawn o bobl a wnaeth sylwadau ar y ffigyrau penodol a gyflwynwyd. Ynni gwynt y tir oedd yn cael y sylw mwyaf yn yr ymatebion – roedd rhai yn gwrthwynebu'n gryf, ar sail yr effaith weledol a'r perygl i dwristiaeth yn bennaf; roedd eraill o'r farn nad oedd gennym ddewis ond mynd i'r cyfeiriad hwn ac y dylem osod targed uchelgeisiol. Mewn nifer fach iawn o achosion cawsom sylw ar lefel union y targed o ran y dadansoddiad a gyflwynwyd gennym.

5. Tanlinellodd y drafodaeth yn y Grwp Cyfeirio nifer o bwyntiau:

6. Tra gellid dadlau bod yr ymatebion yn awgrymu nad oedd angen gosod targed, byddai cael un yn rhoi neges gref i fuddsoddwyr fod Cymru'n croesawu buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy. Y farn a fynegwyd yn y grwp oedd, bod syniad cyffredinol yn bodoli ar hyn o bryd fod Cymru 'ar gau i fuddsoddiad' yn y sector hwn – er bod angen cyferbynnu hyn gyda'r neges arall o'r ymgynghoriad fod Cymru'n gwneud mwy na'r disgwyl yn y sector ynni gwynt.

7. Pwysleisiodd y Grwp ei bod yn bwysig cydnabod bod technoleg yn y sector hwn yn datblygu ac yn newid yn gyflym iawn. Byddai angen adolygu unrhyw darged yn fuan ac yn rheolaidd. Efallai y byddai’n fwy realistig i gael meincnod y gellid asesu datblygiad yn ei erbyn.

8. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynglyn â gosod targedau ar gyfer ffynonellau adnewyddadwy unigol gan efallai y byddai hyn yn ymdopi’n well â newid technolegol a byddai o gymorth i drosglwyddo’r neges nad oedd y ddadl ar ynni adnewyddadwy ond am dyrbinau gwynt ar fryniau neu hyd yn oed am y rhain yn bennaf. Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd, gyda thechnolegau sy’n newid yn gyflym, bod targedau oedd yn cael eu mynegi yn y ffordd hon yn annhebygol o fod yn ddefnyddiol. Yn ogystal, o ystyried yr holl ansicrwydd, ni ddylid seilio polisi yn y sector hwn ar geisio dewis enillwyr.

9. Awgrymwyd serch hynny, o ystyried y camdybiaethau cyffredinol yn yr Adolygiad ynglyn ag ynni gwynt, y byddai’n ddefnyddiol amlinellu’n glir beth oedd ystyr targedau yn ymarferol (ac yn weledol).

**Y Cam Nesaf**

10. Gwahoddir aelodau’r Pwyllgor i drafod canfyddiadau’r ymgynghoriad ac yn dilyn hynny bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn paratoi adroddiad drafft ‘terfynol’ ar y cam hwn o’r adolygiad. Y gobaith yw y gallwn wneud penderfyniad terfynol ar hyn yn ein cyfarfod ar 14 Tachwedd.

**Chris Gwyther AC**
**Cadeirydd**
**Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD: Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru**

**Crynodeb o ymatebion i’r Ymgynghoriad**

**A. <u>Pwrpas y papur</u>**

1. Mae’r papur hwn yn rhoi crynodeb o’r ymatebion a dderbyniwyd i’r ymarfer ymgynghori. Mae’r ymatebion unigol ar gael ar y fewn/rhyngrwyd. Ni chafwyd gwrthwynebiad gan un o’r ymatebwyr i’w safbwyntiau gael eu cyhoeddi.

**B. <u>Cefndir</u>**

2. Cyhoeddod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ei adroddiad: Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru. Rhan 1: Ynni Adnewyddadwy ar 25 Ebrill 2002. Roedd yn gwahodd sylwadau ar yr

adroddiad, ac yn enwedig ei argymhellion erbyn 5 Gorffennaf. Mae copi o wahoddiad y Cadeirydd yn Atodiad A. Roedd yr adroddiad ar gael ar y Rhyngrwyd a dosbarthwyd tua 900 o gopïau caled. Derbyniwyd nifer o ymatebion wedi'r dyddiad cau sef 5 Gorffennaf ac ystyriwyd y rhain hefyd.

## C. <u>Crynodeb o'r Ymatebion a dderbyniwyd</u>

### Nifer yr ymatebion

3. Derbyniwyd cyfanswm o 146 o ymatebion ysgrifenedig yn yr ymgynghoriad. Yn ogystal, trafodwyd yr Adroddiad ym Mhwyllgorau Rhanbarthol Gogledd Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru. Roedd Pwyllgor Rhanbarthol Canolbarth Cymru wedi trafod ynni adnewyddadwy yn gynharach ac mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn y cyfarfod hwnnw hefyd wedi'u hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad.

4. Wrth ymateb i'r ymarfer ymgynghori, lansiodd Cyfeillion y Ddaear Cymru ymgyrch i annog pobl i gefnogi datblygiad ynni adnewyddadwy yng Nghymru a dosbarthwyd taflenni ynghyd â cherdyn post 'wedi'i argraffu', ac roeddent yn gwahodd aelodau'r cyhoedd i anfon hwnnw at eu Haelod Cynulliad. Yn ystod yr ymgynghoriad, anfonwyd 318 o'r rhain gan ACau at Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor. Mewn rhai achosion, mae'r sawl oedd yn ymateb wedi ychwanegu eu sylwadau eu hunain i'r cerdyn wedi'i argraffu ac yn ar achosion hynny maent wedi'u trin fel ymateb unigol i'r ymgynghoriad. O'r 146 o ymatebion y cyfeirir atynt uchod, roedd 25 ar ffurf sylwadau ychwanegol ar gardiau Cyfeillion y Ddaear.

### Ffynhonnell yr ymatebion

5. Daeth ymatebion o amrywiaeth eang o ffynonellau: gan unigolion, Cynghorwyr yn ysgrifennu'n bersonol ar ran eu hetholwyr neu awdurdod, gan fusnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol. Sylwyd hefyd ar achos lle'r oedd unigolyn o fewn sefydliad oedd yn cyfrannu at yr ymgynghoriad wedi ysgrifennu ar wahân ar ei ran ei hun – a gall fod yna eraill.

6. Daeth 15 o'r ymatebion o'r tu allan i Gymru – mewn un neu ddau o achosion roedd y rhain gan bobl oedd wedi'u lleoli yn agos i ffin Lloegr, roedd y rhan fwyaf o'r gweddill gan gyrff y DU oedd â swyddfeydd yn Lloegr sy'n cwmpasu'r DU gyfan.

### Math o Ymateb

7. Roedd llythyr y Cadeirydd yn gwahodd barn gyffredinol ar bwnc ynni adnewyddadwy ac yn awgrymu y byddai'r rhai oedd yn ymateb yn ei chael yn ddefnyddiol efallai i seilio'u sylwadau ar y 6 argymhelliad yn yr adroddiad. Mewn rhai achosion, dyna wnaeth yr ymatebwyr, gwnaeth eraill sylwadau ar faterion ehangach mewn perthynas â'r sector ynni ac weithiau ar faterion penodol o bryder arbennig iddynt. Roedd hyd yr atebion yn amrywio o ychydig o eiriau neu

linellau i ddogfennau mwy swmpus.

8. Mae’r rhan fwyaf o ymatebion yn gyflwyniadau gan bobl unigol neu sefydliadau. Llythyr yw nifer o’r ymatebion sydd ond yn dweud bod yr unigolyn yn cytuno â’r sylwadau a wnaed gan rywun arall – mewn un achos, roedd 19 o ymatebwyr wedi llofnodi llythyr safonol (a gyflwynwyd gan yr awdur gwreiddiol mae’n debyg). Mae cardiau ‘Cyfeillion y Ddaear’ yn enghraifft debyg lle gofynnwyd yn benodol am gefnogaeth i farn arbennig gan rywun oedd yn hyrwyddo safbwynt.

**Nodyn ar ddadansoddiad yr ymgynghoriad**

7**.** Mae unigolion neu gyrff sy’n ymateb i’r ymgynghoriad yn hunan-ddewisol ac nid ydynt yn sampl ‘ar hap’ neu ‘gynrychiadol’ mewn unrhyw fodd ystadegol. Ni ellir cymryd yn ganiataol bod cydran yr ymatebion sy’n mynegi barn o blaid neu yn erbyn materion gwahanol yn yr ymgynghoriad yn adlewyrchu cydrannau poblogaeth Cymru yn gyffredinol.

**D. Themâu Cyffreinol a ddaeth i’r amlwg**

**Ymateb cyffredinol**

8. Roedd yr ymateb ysgubol o’r ymgynghoriad yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor i archwilio’r materion oedd yn ymwneud ag ynni yng Nghymru, ac yn enwedig, ynni adnewyddadwy. Roedd pawb yn gytûn ei fod yn bwnc pwysig ac yn un yr oedd angen polisi clir ac ystyrlon arno yng Nghymru. Cafwyd cydnabyddiaeth glir o’r angen i gynnal trafodaeth eang ar y pwnc ac am swyddogaeth y Pwyllgor Datblygu Economaidd i annog a hwyluso hyn o beth.

**Gostyngiad yn y defnydd o ynni yn gyffredinol**

9. Un o’r themâu cryfaf i ymddangos yn yr ymgynghoriad oedd y farn na ddylid ystyried Ynni Adnewyddadwy cyn y mater ehangach o ostwng y defnydd o ynni yn gyffredinol neu ar wahân iddo – gan gynnwys yr ynni a ddefnyddir gan drafnidiaeth. Nid barn y bobl oedd yn gwrthwynebu datblygu ffurfiau newydd o ynni yn unig oedd hon ond roedd yn thema gyffredinol oedd yn cael ei hadlewyrchu gan nifer fawr o bobl. Eglurwyd y rheswm dros fynd i’r afael â’r Adolygiad fesul cam, a’r pryderon ynglyn â cholli buddsoddiad o ganlyniad i hyn yn adroddiad y Pwyllgor ond nid oedd y pryderon sylfaenol ynglyn â Chymru’n colli buddsoddiad gwerthfawr yn rhywbeth a oedd yn cael ei gydnabod fel rhywbeth i’w ystyried gan lawer o’r rhai a ymatebodd.

10. Ochr yn ochr â hyn dywedodd nifer o bobl y dylid rhoi blaenoriaeth i osod paneli haul a lefelau uwch o insiwleiddio ar dai newydd a, lle’r oedd yn bosib, ar dai oedd yn bodoli eisoes. Roedd nifer o bobl wedi cysylltu hyn hefyd â datblygu cynlluniau gwresogi cymunedol ac ynni cymunedol â’r angen am fwy o ailgylchu gwastraff. Mewn rhai achosion arweiniodd hyn at y

pwnc o gynhyrchu ynni o wastraff er bod eraill o'r farn nad oedd yr olaf yn adnodd adnewyddadwy go iawn. Cyfeiriwyd hefyd at bolisïau 'ynni rhad' ac roedd rhai o'r farn nad oedd yn briodol i wahanu gwres a thrydan. Ehangodd eraill y maes pwnc i fynegi barn am losgwyr yn gyffredinol.

**Cynhesu byd-eang**

11. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn derbyn y casgliad bod angen mynd i'r afael â chynhesu byd-eang ac na ellid caniatáu i'r patrwm cyfredol o gynhyrchu a defnyddio ynni barhau. Fodd bynnag, roedd nifer fach o bobl oedd yn cwestiynu'r asesiad fod cynhesu byd-eang yn digwydd o ganlyniad i ollyngiadau gormodol o garbon deuocsid i'r atmosffer. Roedd y rhain yn cynnwys rhai ymatebion manwl yn dangos ystyriaeth fanwl o'r pwnc. Cyfeiriwyd hefyd ar rai cyhoeddiadau academaidd gan Philip Stott a chan Bjorn Lomberg sy'n bwrw amheuon ar nifer o'r honiadau a wneir am achosion cynhesu byd-eang.

12. Roedd y mwyafrif llethol o'r gweddill yn cytuno gyda barn yr Adroddiad ei bod yn angenrheidiol i gynyddu cyfanswm yr ynni oedd yn cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy a chafwyd barn glir bod angen gwneud hynny mewn modd sensitif er mwyn sicrhau nad oedd twristiaeth nac ardaloedd o arwyddocâd amgylcheddol yn cael eu peryglu. Mewn un neu ddau o achosion nododd ymatebwyr eu bod yn ystyried fod y sefyllfa mor ddifrifol fel nad oedd dewis ond gweithredu ac y byddai'n rhaid wynebu'r gost.

**Ynni adnewyddadwy**

*Ffynonellau*

13. Soniodd nifer fawr o ymatebwyr am ffynonellau adnewyddadwy o ynni yn nhermau tyrbinau gwynt ar fryniau yn unig. Mewn rhai achosion cafwyd cefnogaeth gref i'r angen am ddatblygu ffurfiau eraill o ynni adnewyddadwy ac, yn achos rhai, cyflwynwyd dadansoddiad lled ofalus o'r cyfleoedd oedd yn cael eu cynnig gan Biomas, lipidau, olew coginio sy'n wastraff a braster anifeiliaid. Soniodd un neu ddau am bwysigrwydd datblygu'r economi hydrogen. Ychydig iawn o ymatebwyr a soniodd am ynni'r llanw.

*Ynni gwynt*

14. Yn ôl y disgwyl, roedd y farn ehangaf ar bwnc ynni gwynt. Roedd y rhai oedd o blaid yn ystyried ei fod yn cynnig cyfleoedd ar gyfer swyddi medrus iawn, buddsoddiad ac i Gymru sefydlu'i hun mewn maes technolegol allweddol. Serch hynny, roedd pawb mwy neu lai oedd o blaid yn cydnabod y materion yr oedd tyrbinau gwynt yn eu codi o ran twristiaeth a'r amgylchedd gweledol, a chafwyd barn gyffredinol bod yn rhaid ystyried y materion hyn yn ofalus mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad. Nid oedd y mater yn unochrog serch hynny, gydag un wnaeth ymateb yn cyfeirio at enghraifft (yn Lloegr) lle mae fferm wynt a'i chanolfan

ymwelwyr wedi cynnig cyfle twristiaeth arwyddocaol ac wedi denu nifer fawr o ymwelwyr.

15. Soniodd llawer oedd yn gwrthwynebu'r tyrbinau gwynt am eu dylanwad ar yr amgylchedd gweledol a phwysigrwydd mawr twristiaeth i Gymru. Mae hwn mewn gwirionedd yn faes lle ceir cymharol ychydig ddata cadarn ac awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnal dadansoddiad cost manwl o hyn. Mynegodd eraill y farn bod yr achos economaidd yn simsan oherwydd mai ychydig o swyddi oedd yn cael eu creu gan ynni gwynt – ac o ystyried bod gwledydd eraill, yn enwedig Denmarc, wedi datblygu ymhellach na'r DU yn y maes, y byddai unrhyw ehangu yng Nghymru ond yn denu technoleg oedd dros ben o fannau eraill. Yn wir, o ystyried y cyhoeddiadau diweddar ynglyn â gostyngiadau yn y defnydd o ynni gwynt yn Nenmarc byddem yn darged ar gyfer cael gwared o offer.

16. Cymharol ychydig o ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu'r tyrbinau oedd yn cynnig dewis arall heblaw am ostwng y defnydd o ynni yn gyffredinol. Dywedodd rhai bod Cymru, a rhai hefyd bod y DU, yn rhy fach i gael unrhyw effaith ar y mater – a dywedodd ychydig, yn y bôn, nad oedd llawer o bwynt gwneud dim tan y byddai'r UDA yn fwy ymwybodol o ynni. Pwysleisiodd eraill bwysigrwydd mynd ar ôl technolegau adnewyddadwy, mai rhan o'r ateb yn unig oedd tyrbinau gwynt ac, ar y gorau, y dylid gweld tyrbinau gwynt fel mesur tymor byr tra gallai technolegau eraill ddatbygu. Cafwyd cydbwysedd yn y dadleuon, gan y mynegwyd barn hefyd fod yn rhaid i ni dderbyn bod cost i bob ffurf o ynni.

17. Cymharol ychydig o ymatebwyr a fynegodd farn am dyrbinau gwynt y môr er bod y rhai a wnaeth, gan gynnwys rhai gwrthwynebwyr i ynni gwynt y tir, yn ystyried hwn fel y lleiaf o'r ddau ddrwg.

*Effaith ehangach tyrbinau gwynt*

18. Ochr yn ochr â rhywfaint o ddadansoddi gofalus gan amrywiaeth o bobl, mynegwyd safbwyntiau hefyd nad oedd llawer o gefnogaeth wyddonol iddynt. Soniodd rhai ymatebwyr am "dyrbin gwynt ar bob bryn yng Nghymru", eraill am "gannoedd o ffermydd gwynt yng Nghymru". Roedd adroddiad y Pwyllgor fodd bynnag yn amcangyfrif mai'r uchafswm dan yn dewis 'dyfodol gwyrdd' fyddai 300 o dyrbinau ar y tir a 150 ar y môr – a gellir gwirio hyn gydag ychydig o rifyddeg syml.

19. Gwnaed sylwadau pellach ynglyn â faint o ynni oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu a gosod tyrbinau gwynt – a chyfeiriwyd at adroddiadau bod y rhain yn defnyddio mwy o ynni nag y byddai'r tyrbinau byth yn ei greu. Cafwyd dadl (anghywir) na ellid ystyried ynni gwynt yn 'wyrdd' o'r safbwynt hwn. Nid yw'r dadansoddiadau hyn mewn gwirionedd o werth yn wyddonol.

20. Mynegwyd pryderon hefyd ynglyn â pherygl methiant mecanyddol gyda thyrbinau gwynt a'r perygl a gyflwynir ganddynt i adar – er bod yr ymateb a gyflwynwyd gan yr RSPB yn awgrymu y bydd twf mewn ynni adnewyddadwy yn arwain at fanteision gwrthgyferbyniol arwyddocaol i

adar.

21. Roedd nifer o bobl hefyd dan yr argraff mai'r 'Llywodraeth' oedd yn ariannu ffermydd gwynt a gwnaed y sylw mai'r unig elw a wnaed ganddynt oedd y grant yr oeddent yn ei dderbyn. Mewn gwirionedd, mae'r holl fuddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cael ei wneud gan y sector preifat ac mae'r gefnogaeth gan y llywodraeth wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ddatblygu technoleg newydd a thechnolegau sy'n datblygu. Does braidd dim cymorth cyhoeddus ar gael ar gyfer ffermydd gwynt y tir.

*Pwer dwr*

22. O ran pwer dwr, cyfeiriodd un a wnaeth ymateb at y gweithredu sydd i ddod yn fuan yn sgil Cyfarwyddeb Fframwaith Dwr yr UE y tybid y byddai'n cael dylanwad negyddol ar gynhyrchu ynni dwr yng Nghymru ac y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddilyn esiampl Yr Alban i geisio cael ei heithrio.

**Targedau ar gyfer ffynonellau adnewyddadwy**

23. Dywedodd nifer o ymatebwyr bod y ffigyrau a gyflwynwyd ar lefel yr ynni a gynhyrchir ac a ddefnyddir yng Nghymru, ac yn enwedig pan oedd y rhan adnewyddadwy o'r rhain yn cael ei fynegi fel canran, yn annibynadwy ac yn aml yn gamarweiniol oherwydd roedd y ffynonellau ond yn gweithredu ar y lefelau hynny am ran o'r amser. Er enghraifft, tra gallai tyrbin gwynt gael y gallu ar ôl ei osod i gynhyrchu allbwn o 100MW er enghraifft, roedd y gwir allbwn dros gyfnod o amser yn dibynnu ar y tywydd a ffactorau eraill a byddai'n sylweddol lai na'r uchafswm. I ryw raddau mae hyn yn bennaf yn ymwneud â bod yn glir am y ffordd y mae ffigyrau yn cael eu disgrifio a'u cyflwyno. Roedd y rheini oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor am y lefelau allbwn (oriau Terrawatt) yn adlewyrchu'r amser pan nad oedd ffynhonnell ysbeidiol yn gynhyrchiol.

24. Mynegwyd safbwyntiau gwahanol am y ffordd y dylai Cymru osod targedau iddi ei hun ac a ddylai fod yn seiliedig ar lefel yr ynni oedd yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru – neu yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru, sydd rhywfaint yn llai. Barn gyffredinol yr ymatebwyr oedd mai'r hyn yr oedd yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru yn hytrach na'r hyn oedd yn cael ei gynhyrchu yma oedd y cymharydd mwyaf priodol – ond roedd y rhan fwyaf yn ffafrio'r dull o fynegi allbwn mewn termau absoliwt hy mewn oriau Terrawatt. Y fantais i'r dull hwn yw ei fod yn ystyried natur ysbeidiol ffynonellau adnewyddadwy ynni.

25. Tra bod nifer o ymatebwyr o blaid gosod targed, siomedig efallai oedd mai cymharol ychydig a aeth i'r afael â chwestiwn y targed ei hun. Roedd y rhai oedd yn gyffredinol o blaid deunyddiau adnewyddadwy yn tueddu i fynd am un ym mhen uchaf y raddfa 'Dyfodol Gwyrdd' neu 4TWh neu fwy. Roedd cerdyn Cyfeillion y Ddaear yn rhoi'r ffigwr o 6TWh a dywedodd ychydig o ymatebion y dylai Cymru fod yn edrych ar ddenu cymaint o fuddsoddi yn y sector

hwn â phosib. Fodd bynnag, nid oedd y rhai oedd ag amheuon am dyrbinau gwynt, hyd yn oed pan nad oedd y rhain yn gwrthwynebu'n llwyr, yn tueddu i fynd i'r afael â'r cwestiwn o darged.

26. Dywedodd un neu ddau o bobl nad oedd pwynt gosod targedau heb nodi'n union sut y byddent yn cael eu cyflawni.

27. Yn gyffredinol, roedd 2 agwedd yn amlwg ymysg yr ymatebwyr. Mewn rhai achosion, roedd gosod y targed ar gyfer ynni adnewyddadwy i'w weld fel Cymru'n derbyn rhan o'r cyfrifoldeb sy'n rhaid ei rannu gan y DU. Roedd hyn yn rhannu ymhellach i'r rhai oedd yn cydnabod yr angen am ryw lefel o ynni gwynt ond yn teimlo bod eu rhan hwy o Gymru eisoes wedi cyfrannu mwy na'i chyfran. I eraill, roedd yn cael ei weld fel cyfle i fuddsoddi ac un y dylai Cymru geisio manteisio arno i'r eithaf. Yn rhannol, gallai'r gwahaniaeth mewn agwedd fod wedi adlewyrchu gwahaniaeth yn yr amgyffred ynglyn â lefel y swyddi a graddfa'r manteision sydd i'w chael o ynni adnewyddadwy.

28. Mewn sawl ffordd, dim ond os gwelir yr angen am allu adnewyddadwy fel ffordd o ysgwyddo rhan o'r baich sy'n cael ei orfodi o'r tu allan y mae'r ffordd y mae rhywun yn mynegi'r ffigyrau yn dyngedfennol. Os yw'n fater o gyfran rhywun o darged 10% neu 20% yna mae'n werth dadlau dros y ffigyrau. Ar y llaw arall, os mai dyheadau Cymru ei hun sydd dan sylw, a'r cyfleoedd a'r goblygiadau o ran ynni adnewyddadwy, yna yr hyn sy'n cyfrif yw nifer a'r math o ffynonellau adnewyddadwy sy'n cael eu dilyn a'u heffaith ehangach – y da a'r drwg.

**Ynni niwclear**

29. Soniodd nifer fach o bobl am ynni niwclear a thra bod ymatebwyr yn gyffredinol yn ei wrthwynebu ar sail cost a diogelwch, nid oedd y farn yn unfryd. Mynegwyd barn bod peryglon yn cael eu gorliwio yn y wasg, ac na ddylid ei ystyried yn unig fel dewis pan nad oedd unrhyw ddewis arall ar gael.

**Cyfansoddiad y PDE**

30. Soniodd nifer o bobl am y diffyg ACau gwledig ar y Pwyllgor gan nodi bod safbwynt gwleidyddol rhai aelodau ar ynni adnewyddadwy yn golygu eu bod wedi gwneud eu penderfyniad cyn yr ymgynghori. Mae hyn yn rhannol yn cael ei adlewyrchu gan ddiffyg dealltwriaeth o swyddogaeth y Pwyllgor wrth ymgymryd ag Adolygiad a'r syniad bod y EDC wedi'i sefydlu'n unswydd i adolygu polisi ynni ac y byddai'r Pwyllgor ei hun yn gosod y polisi a'r targedau i Gymru.

**E. <u>Ymatebion ar argymhellion unigol</u>**

**Argymhelliad 1**

*Rydym yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

> *(a) yn cydnabod y bydd rhaid i ni symud tuag at system drydan ddi-garbon dros yr ugain i hanner can mlynedd nesaf;*
>
> *(b) yn ceisio datblygu adnoddau adnewyddadwy cynhenid er mwyn cyfrannu'n amserol at ostwng gollyngiadau carbon;*
>
> *(c) yn hyrwyddo ffynonellau ynni adnewyddadwy mewn modd a fydd yn cynyddu cyfleoedd diwydiannol, gwledig a masnachol yng Nghymru heb wneud niwed i dwristiaeth neu ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol.*

31. Er bod un neu ddau o ymatebwyr yn cwestiynu'r honiadau mai gollyngiadau carbon sy'n achosi cynhesu byd-eang, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r argymhelliad hwn ond gyda phwyslais arbennig ar y geiriau terfynol 'heb wneud niwed i dwristiaeth neu ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol.' Cafwyd sylwadau nad oedd ffordd hawdd i greu cydbwysedd rhwng ystyriaethau economaidd a'r rhai oedd yn ymwneud â chyflenwadau o ynni oedd yn gyfeillgar i newid yn yr hinsawdd a bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd. Ar yr un pryd nodwyd nad oedd yn angenrheidiol newid i system nad oedd yn gollwng carbon o gwbl – ond yn y lle cyntaf roedd yn angenrheidiol symud i'r cyfeiriad hwnnw.

<u>Argymhelliad 2</u>

*Rydym yn argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn mabwysiadu targedau ar gyfer cynhyrchu trydan a gwres o ffynonellau ynni adnewyddadwy i Gymru erbyn 2010 a 2020, gan gofio targed y DU i gynhyrchu 10% o'i thrydan drwy ynni adnewyddadwy erbyn 2010. Dylai'r targedau gael eu gosod yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn.*

*Er mwyn hyrwyddo'r targedau hyn dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael gwybodaeth gan bob awdurdod lleol ar y cyfraniadau maent yn ystyried y gellid eu gwneud i gwrdd â'r targedau yn eu hardaloedd hwy.*

32. Mynegodd nifer o bobl farn am y ffordd yr oedd targedau'n cael eu mynegi a'r farn gyffredinol oedd mai'r ffordd orau o wneud hyn oedd yn nhermau allbwn net mewn oriau Terrawatt. Mae hyn yn osgoi'r dadleuon ynglyn ag a ddylid cysylltu allbwn â'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio neu ei gynhyrchu yng Nghymru – a hefyd y ffaith bod allbwn gwirioneddol lawer yn is na'r gallu mewn theori ar gyfer llawer o ffynonellau adnewyddadwy.

33. Ni chafwyd sylwadau gan lawer ar lefelau'r allbwn y gellid ei gyflawni efallai o ffynonellau adnewyddadwy gwahanol. Roedd llawer, mewn gwirionedd, heb fynegi barn o gwbl ynglyn â thargedau – yn enwedig ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu ynni gwynt neu ffurfiau eraill o ynni

adnewyddadwy. Dywedodd un neu ddau nad oedd llawer o bwynt gosod targed os nad oedd rhywun hefyd yn nodi'n union sut y byddai'n cael ei gyflawni. Roedd ychydig mwy yn ystyried ei bod yn werth chweil gosod targedau ond heb roi unrhyw syniad am y lefel y byddent yn ei chefnogi.

34. Ar wahân i gardiau Cyfeillion y Ddaear oedd yn dyfynnu lefel (uchel) o 6TWh, cafwyd sylwadau gan tua 20 o ymatebwyr am lefel y targed. Roedd rhai yn dadlau o blaid ymarferoldeb lefel 'gymedrol' – efallai tua 1.5-2.0 TWh, tra roedd y gweddill yn mynegi barn fwy uchelgeisiol y dylai Cymru wneud cymaint ag y gallai. Roedd y rhain yn tueddu i fynd am daged uwch na 4TWh – a hyd at 6TWh (er bod un yn dadlau dros ynni adnewyddadwy 100% ymhen 20 mlynedd.)

Argymhelliad 3

*Rydym yn argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol ei hun yn defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy gyda'r nod o gael ei holl ynni o ffynonellau adnewyddadwy a'i fod yn annog asiantaethau eraill a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i feithrin datblygiad ynni adnewyddadwy trwy:*

*(a) newid i ddefnyddio trydan gwyrdd;*

*(b) cefnogi prosiectau i ddatblygu technolegau sy'n manteisio ar gyfleoedd lleol neu adnoddau unigryw.*

35. Ychydig o sylwadau a gafwyd ar yr argymhelliad hwn ac yn gyffredinol roedd pobl o'i blaid er bod rhai wedi mynegi amheuon ynglyn â'r syniad o ynni 'gwyrdd' o fewn system grid cenedlaethol.

Argymhelliad 4

*Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol bwyso i ddatrys y materion rhwydweithiau dosbarthu lleol a chyfanwerthu ynni ysbeidiol ar frys. Dylai hefyd ofyn i'r Cwmnïau Rhwydweithiau Dosbarthu lleol egluro'upolisïau ar gysylltu cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy.*

36. Ychydig o sylwadau gafwyd ar yr argymhelliad hwn ond roedd y rheiny yn gyffredinol o blaid.

Argymhelliad 5

*Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol;*

*(a) chwilio am ffyrdd ar frys i egluro a hwyluso'r broses o gynllunio datblygiadau ynni adnewyddadwy;*

*(b) gael ymestyn ei bwerau i gymeradwyo cyfleusterau cynhyrchu pwer;*

*(c) ffeindio ffyrdd i sicrhau bod datblygiadau ynni adnewyddadwy yn dod â manteision amlwg i'r gymuned leol.*

37. Roedd yr argymhelliad hwn mewn tair rhan. Ar ran (a) gwelwyd rhywfaint o gydymdeimlad i'r syniad o ddileu oedi a rhwystrau yn y broses gynllunio ond roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr (fel oedd i'w ddisgwyl efallai) yn gweld y rhain yn broblem. Nid felly ymatebwyr o fyd busnes. Mewn un achos awgrymwyd mai'r Cynulliad Cenedlaethol yn aml oedd yn achosi'r oedi. Fodd bynnag, gwelwyd neges eglur iawn bod ymatebwyr yn gyffredinol yn gweld y broses gynllunio fel y ffordd gywir a democrataidd o ystyried y dadleuon cystadleuol anodd o ran datblygiadau ynni adnewyddadwy. Yn amlwg roedd yn bwysig bod y broses yn effeithlon heb unrhyw oedi diangen, ond roedd yna farn eglur iawn fod yn rhaid gwneud y penderfyniadau hyn yn ddemocrataidd ac na ddylid gweld llacio yn y systemau.

38. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i (b), y dylai Cymru gael y grym i benderfynu ar gais cynllunio beth bynnag ei faint, er i un neu ddau o bobl ddweud na allai, neu na ddylai Cymru ystyried ei hanghenion ar wahân i'r DU. Mynegwyd y farn os oedd y Cynulliad neu awdurdodau lleol i gymryd mwy o gyfrifoldeb byddai goblygiadau o ran adnoddau.

39. Ychydig o sylwadau a gafwyd ar (c) a thra bo rhai yn cytuno â'r egwyddor, roedd eraill o'r farn y gellid gweld hyn fel cynnig llwgr-wobrywon i'r gymuned leol.

<u>Argymhelliad 6</u>

*Rydym yn argymell bod y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu'r sector ynni fel sector â photensial i dyfu yng Nghymru ac yn sicrhau bod rhaglenni i annog pobl i ddatblygu'u sgiliau ym mhob rhan o'r wlad i gwrdd â'r anghenion hyn, ac i annog y sector preifat i fuddsoddi yn y sector hanfodol hwn.*

40. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r argymhelliad hwn a nodwyd nad oedd wedi'i gyfyngu i ynni 'adnewyddadwy'. Fodd bynnag, roedd gan nifer o bobl amheuon a fyddai digon o swyddi'n cael eu creu yn y sector ac yn mynegi'r farn y byddai ehangu yn arwain at gynnydd mewn tyrbinau gwynt o dramor. Roedd rhai o'r farn ein bod mewn perygl o weld technoleg oedd yn weddill o fannau eraill yn cael ei ddadlwytho ar Gymru o ganlyniad i'r newidiadau yn Nenmarc.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Atodiad A – Llythyr y Cadeirydd ar ymgynghori.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

Pwyllgor Datblygu Economaidd
Economic Development Committee
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

25 Ebrill 2002

**ADOLYGIAD O BOLISI YNNI YNG NGHYMRU**

**YMGYNGHORIAD AR YR ADRODDIAD AR YNNI ADNEWYDDADWY**

Amgaeaf gopi o adroddiad ymgynghori'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar ynni adnewyddadwy. Hwn yw'r adroddiad cyntaf sydd wedi deillio o adolygiad y Pwyllgor o bolisi ynni yng Nghymru.

Dewisodd y Pwyllgor bolisi ynni fel y pwnc ar gyfer ei adolygiad nesaf gan fod cyflenwad ynni diogel am bris cystadleuol yn hanfodol ar gyfer datblygu economi Cymru ac i alluogi ein diwydiant i gystadlu yn yr economi fyd-eang. Ond mae ynni hefyd yn sector diwydiannol ynddo'i hun. Mae gan Gymru gyfoeth o adnoddau ynni a hanes ym myd gweithgynhyrchu a

pheirianneg, meysydd sy'n hanfodol i gynhyrchu ynni. Yn awr am y tro cyntaf, mae cyfle i ddatblygu technoleg newydd, i ymchwilio ac arloesi ac i greu swyddi. Os bydd Cymru'n manteisio ar y cyfle, gall fod ar flaen y gad yn y datblygiadau hynny.

Dewiswyd ynni adnewyddadwy fel pwnc cyntaf yr Adolygiad oherwydd tybiwyd bod angen ystyried materion cynllunio ar frys, ac er mwyn rhoi rhaglen ynni adnewyddadwy well ar waith yn fuan. Ein gobaith yw y bydd ein hadroddiad yn ysgogi trafodaeth gyhoeddus eang ar ynni adnewyddadwy a gwahoddwn sylwadau oddi wrth bobl a chyrff yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud chwe argymhelliad ar y materion polisi pwysicaf yn ein barn ni. Efallai y bydd o gymorth i chi gynnig sylwadau sy'n gysylltiedig â'r materion hynny. A fyddech cystal ag ymateb erbyn dydd Gwener 5 Gorffennaf.

Croesawn ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg a gallwch eu hanfon ar bapur neu yn electronig.

Dylid anfon llythyrau at:

Gareth John
Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

a dylid anfon ymatebion electronig i flwch e-bost y Pwyllgor:

Economic.comm@wales.gsi.gov.uk

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad ar gael oddi wrth Gareth John ar 029 2089 8429.

Yn unol ag ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn agored, byddwn yn rhoi copïau o'r ymatebion ysgrifenedig yn llyfrgelloedd y Cynulliad Cenedlaethol a bydd modd i'r cyhoedd ofyn i'w gweld. A fyddech cystal â nodi os nad ydych yn fodlon i'ch ymateb neu unrhyw ran ohono fod ar gael i'r cyhoedd.

I gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Chlerc y Pwyllgor, John Grimes, ar 029 2089 8225 neu'r Dirprwy Glerc, Sian Wilkins, ar 029 2089 8224.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yn gywir

**Christine Gwyther AC**
**Cadeirydd, Pwyllgor Datblygu Economaidd**